No.

# CABINET

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cynghorwyr R.M. Birch, B.E. Brooks, G. John, E. Williams and M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd E. Goodjohn, Dr. I.J. Johnson a N.C. Thomas.

## C53 CYHOEDDIAD -

Croesawodd yr Arweinydd yr holl bartïon i gyfarfod y Cabinet ac atgoffa pawb a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei Ffrydio'n Fyw yn ogystal â'i recordio ar y rhyngrwyd, a bod y recordiad hwnnw'n cael ei archifo i'w wylio yn y dyfodol.

Gofynnodd a wnâi'r holl gyfranogwyr roi'r mudydd ymlaen pan nad oeddent yn siarad er mwyn osgoi unrhyw sŵn cefndir neu adlif pan fyddai'r cyfranogwyr eraill yn siarad, a phe bai cyfranogwr yn dymuno siarad a allent roi llaw i fyny (i gael eu gweld ar y sgrin) neu ddefnyddio'r botwm 'codi llaw'.

Gofynnwyd i'r aelodau sicrhau bod pob dadl yn cael ei chodi ar lafar yn hytrach na thrwy'r cyfleuster sgwrsio, er mwyn cael cofnod llawn ar y recordiad. Gellid defnyddio'r cyfleuster 'sgwrsio’ i dynnu sylw at unrhyw broblemau technegol ac/neu i dynnu sylw'r Cadeirydd neu'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

## C54 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd R. Sivagnanam.

## C55 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf, 2023 fel cofnod cywir.

## C56 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

## C57 STRATEGAETH POBL A DOGFENNAU ATEGOL (CYF) –

Cyflwynwyd ac ystyriwyd yr eitem a gyfeiriwyd o'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ar 26 Ebrill, ochr yn ochr â'r adroddiad a restrwyd ar agenda'r cyfarfod o dan Eitem 15.

Y pynciau trafod yn y cyfarfod oedd cwestiynau ynghylch mesur perfformiad staff, gweithio hybrid ac effaith hynny o ran carbon, hyblygrwydd staff (drwy weithio'n hybrid), ymgysylltu â'r Gwasanaeth Ieuenctid a data cymharol staff.

Ar ôl ystyried yr eitem a gyfeiriwyd,

PENDERFYNWYD –Bod cynnwys yr eitem a gyfeiriwyd wedi'i nodi a'i ystyried ochr yn ochr â'r adroddiad a restrwyd ar agenda'r cyfarfod o dan Eitem 15.

<u>Rhesymau dros y penderfyniadau</u>

Ar sail cynnwys yr eitem a gyfeiriwyd a'r trafodaethau yn y cyfarfod, ag ystyriaeth o hynny ochr â'r adroddiad a restrwyd ar agenda'r cyfarfod o dan Eitem 15.

## C58 ARCHWILIO CYMRU – CYNLLUN ARCHWILIO AMLINELLOL BRO MORGANNWG 2023 (CYF) –

Cyflwynwyd yr eitem a gyfeiriwyd o'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ar 24 Mai 2023.

Dywedodd yr Arweinydd fod y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi mynd drwy'r cynllun yn fanwl a bod y naill bwyllgor a'r llall yn gwbl fodlon â'r canlyniadau. Rhoddwyd sicrwydd bod opsiwn i archwilio agweddau pellach ar draws yr ystod o archwiliadau a oedd wedi'u cynllunio ar gyfer y flwyddyn gyfredol, ac y gellid gwneud mwy o waith ar-safle pe bai angen.

Ar ôl ystyried yr eitem a gyfeiriwyd,

PENDERFYNWYD –Ategu a chymeradwyo Cynllun Archwilio Amlinellol Archwilio Cymru 2023 ar gyfer Cyngor Bro Morgannwg.

<u>Rhesymau dros y penderfyniadau</u>

Ar sail cynnwys yr eitem a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

## C59 CYNGOR BRO MORGANNWG – CYMHWYSO'R EGWYDDOR DATBLYGU CYNALIADWY MEWN MEYSYDD GWASANAETH (CYF) –

Cyflwynwyd yr eitem a gyfeiriwyd o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 12 Mehefin 2023, a chyfeiriodd yr Arweinydd at y ddau Argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor wrth gyfeirio:-

A1: Dylai'r Cyngor ddatblygu ei becyn cymorth rheoli prosiect i sicrhau bod y dogfennau hynny'n helpu swyddogion i gymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy o'r cychwyn cyntaf.

A2: Dylai'r Cyngor ddatblygu ei arlwy dysgu a datblygu er mwyn helpu i sicrhau bod staff ar draws y sefydliad yn deall Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn gallu cymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy fel bo'r angen yn eu rolau.

Ar ôl ystyried yr eitem a gyfeiriwyd,

PENDERFYNWYD –Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r ddau Argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 12 Mehefin 2023, ynghyd â'r Cynllun Gweithredu, a oedd wedi'i gynnwys yn Atodiad B yr adroddiad.

<u>Rhesymau dros y penderfyniadau</u>

Ar sail cynnwys yr eitem a gyfeiriwyd a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

## C60 CYNGOR BRO MORGANNWG: CALENDR PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2023/24 (CYF) –

Cyflwynwyd yr eitem a gyfeiriwyd o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 12 Mehefin 2023.

Wrth gyfeirio, gwnaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio argymell y canlynol i'r Cabinet:

(2) BOD y Cabinet yn cael gwybod beth yw safbwyntiau Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, sef:

- Y dylid ystyried ymestyn y gweithgarwch ymgysylltu cyhoeddus a amserlennwyd ar gyfer mis Awst 2023 gan y bydd llawer o bobl ar eu gwyliau, a chan mai dyna fydd tymor haf yr ysgolion.
- Y dylai'r Cyngor sicrhau bod aelodau o'r cyhoedd yn teimlo eu bod yn cael gwrandawiad, ac yn rhoi ymateb i esbonio sut y rhoddwyd ystyriaeth i'w safbwyntiau.

Dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor yn croesawu'r argymhellion hynny'n fawr, ac y byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i sicrhau bod gan bobl ddigon o amser i gael gwrandawiad ac ystyriaeth lawn o'u safbwyntiau.

Ar ôl ystyried yr eitem a gyfeiriwyd,

PENDERFYNWYD –BOD y Cabinet yn cymeradwyo'r argymhelliad gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 12 Mehefin, 2023.

Rhesymau dros y penderfyniadau

Ar sail cynnwys yr eitem a gyfeiriwyd a'r trafodaethau yn y cyfarfod

## C61 DIWEDDARIAD CH4: AMSERLEN RHAGLEN WAITH ARCHWILIO CYMRU 2022/23 (CYF) –

Cyflwynwyd yr eitem a gyfeiriwyd o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 12 Mehefin 2023.

Roedd y Pwyllgor wedi cael gwybod y byddai'r newid hinsawdd ymhlith meysydd allweddol â blaenoriaeth Archwilio Cymru, a bod rhywfaint o waith cychwynnol eisoes wedi'i gyflawni, a bod disgwyl gwaith adolygu pellach. Byddai'r Cyngor yn parhau i weithio'n agos ag Archwilio Cymru o ran ein huchelgeisiau Prosiect Sero.

Ar ôl ystyried yr eitem a gyfeiriwyd,

PENDERFYNWYD –Nodi cynnwys yr eitem a gyfeiriwyd.

Rhesymau dros y penderfyniadau

Ar sail cynnwys yr eitem a gyfeiriwyd a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

## C62 ADRODDIAD DIWEDDARU PROSIECT SERO (CYF) –

Cafodd yr eitem a gyfeiriwyd o Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio ar 20 Mehefin, 2023, ei chyflwyno a'i chysylltu ag eitem 10 ar agenda'r cyfarfod, sef eitem a gyfeiriwyd o'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ar yr un pwnc.

Dywedodd yr Arweinydd fod sylwadau wedi dod i law gan Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio a Phwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol, a dderbyniodd wybodaeth yn rhan o'r diweddariad chwe-misol a gyflwynir i'r naill Bwyllgor a'r llall.

Roedd y pynciau a drafodwyd yn cynnwys hyb ar-lein newydd Prosiect Sero, plannu a chefnogi bioamrywiaeth, newidiadau rheoli gwastraff, cynllunio i Greu Lleoedd, mabwysiadu'r Polisi a'r Strategaeth Gaffael newydd, a gwaith ar Gynllun Rheoli Carbon y dyfodol, yn ogystal â dangosyddion perfformiad a oedd wedi'u mabwysiadu o dan Brosiect Sero. Roedd trafodaethau pellach yn canolbwyntio ar y cyllid a'r cronfeydd wrth gefn a oedd ar gael, effeithiau amgylcheddol datblygiadau, trafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau bysus.

Ar ôl ystyried yr eitem a gyfeiriwyd ar y cyd ag Eitem 10 ar yr agenda,

PENDERFYNWYD –Y dylid diolch i Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio am ystyried y mater a nodi cynnwys yr eitem a gyfeiriwyd.

Rhesymau dros y penderfyniadau

Ar sail cynnwys yr eitem a gyfeiriwyd a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C63 ADRODDIAD DIWEDDARU PROSIECT SERO (CYF) –**

Cafodd yr eitem a gyfeiriwyd o'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ar 21 Mehefin, 2023, ei chyflwyno a'i chysylltu ag eitem 9 ar agenda'r cyfarfod, sef eitem a gyfeiriwyd o Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio ar yr un pwnc.

Roedd y pynciau a drafodwyd yn cynnwys y gyfnewidfa drafnidiaeth newydd, ymholiadau ynghylch effaith newidiadau i'r trefniadau ailgylchu a'r data a oedd ar gael, gostyngiad yn yr ôl troed carbon gan fod staff yn gweithio gartref ac egwyddorion yr economi gylchol.

Ar ôl ystyried yr eitem a gyfeiriwyd ar y cyd ag Eitem 9 ar yr agenda,

PENDERFYNWYD –Y dylid diolch i Bwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol am ystyried y mater a nodi cynnwys yr eitem a gyfeiriwyd.

Rhesymau dros y penderfyniadau

Ar sail cynnwys yr eitem a gyfeiriwyd a'r trafodaethau yn y cyfarfod

**C64 POLISI CYFARFODYDD AML-LEOLIAD DIWYGIEDIG (CYF) –**

Dywedodd yr Arweinydd y byddai'r eitem ddisgwyliedig a gyfeiriwyd o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 17 Gorffennaf 2023 ac a oedd i fod i gael ei chyflwyno yn y cyfarfod bellach yn cael ei gohirio hyd gylch cyfarfodydd mis Medi. Bu cryn drafod yn y Pwyllgor, a chyflwynwyd nifer o argymhellion y byddai angen ystyried eu goblygiadau cysylltiedig yn llawn cyn y gallai'r Cabinet wneud penderfyniad terfynol.

Gan hynny,

PENDERFYNWYD –Y byddai’r eitem a gyfeiriwyd o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 17 Gorffennaf 2023 bellach yn cael ei chyflwyno gerbron y Cabinet ym mis Medi 2023.

Rhesymau dros y penderfyniadau

Er mwyn ystyried yr eitem a gyfeiriwyd ar ôl rhoi ystyriaeth ddigonol i'r trafodaethau a gynhaliwyd yn y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 17 Gorffennaf, 2023.

**C65 FFORWM YMGYNGHOROL AR Y CYD –**

Cyflwynwyd cofnodion y Cyd-fforwm Ymgynghorol a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2023 fel yr oeddent wedi'u cynnwys ar yr agenda.

Nododd yr Arweinydd mai un o'r eitemau a drafodwyd oedd y Strategaeth Pobl a Dogfennau Ategol ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod o dan Eitemau 4 ac 15, lle bu cefnogaeth eang tuag at y Strategaeth a'i dogfennau ategol.

PENDERFYNWYD – Nodi cofnodion y Cyd-Fforwm Ymgynghorol a gynhaliwyd ar 24 Ebrill, 2023.

Rheswm dros y penderfyniad

Nodi'r cofnodion

**C66 PANEL RHIANTA CORFFORAETHOL –**

Cyflwynwyd cofnodion y Panel Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd ar 15 Mai, 2023 fel yr oeddent wedi'u cynnwys ar yr agenda.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Williams sy’n Cadeirio’r Panel at Eitem 4 ar yr Agenda fel prosiect diddorol a edrychai ar ddatblygiadau o ran sut i wella profiadau ein Plant sy’n Derbyn Gofal mewn ysgolion. Roedd yr ymchwiliad yn casglu gwybodaeth a fu gynt yn anodd cael hyd iddi, ac yn galluogi cysylltiadau gwaith gwell rhwng y gyfarwyddiaeth Addysg a Gofal Cymdeithasol. Cydnabuwyd bod plant sy'n derbyn gofal yn profi trawma, a bod gan rai ohonynt anghenion cymorth ychwanegol, ond cydnabuwyd hefyd fod yr athrawon eu hunain wedi'u hyfforddi ac yn gallu adnabod anghenion y plant, ac y gallent ddeall yn well sut i gefnogi plant sy'n agored i niwed o fewn yr ysgolion. Diolchodd y Cynghorydd Williams i'r Swyddog ac i'r cynrychiolydd o Ysgol Llanilltud Fawr am eu cyflwyniad.

PENDERFYNWYD – Nodi cofnodion cyfarfod y Panel Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd ar 15 Mai, 2023.

Rheswm dros y penderfyniad

Nodi'r cofnodion.

**C67 DEFNYDD O BWERAU ARGYFWNG Y PRIF WEITHREDWR (AG/BA) (CRAFFU – I GYD) -**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad a luniwyd i hysbysu’r Cabinet am Bwerau Argyfwng a arferwyd gan y Prif Weithredwr ers yr adroddiad diwethaf ar 8 Mehefin 2023.

Cyfeiriwyd at y defnydd amrywiol o bwerau argyfwng, ee, rhoi trefniadau cynnal a chadw ar waith cyn gynted ag y byddai tendrau wedi'u cytuno'n ffurfiol, neu dderbyn grantiau oddi wrth sefydliadau allanol fel y gallai'r Cyngor ddechrau darparu'r gwaith a oedd yn gysylltiedig â'r grantiau hynny mewn modd amserol. Roedd cynnal a chadw ysgolion yn enghraifft nodweddiadol yn ystod yr haf gan fod gwaith cynnal a chadw yn aml yn cael ei amserlennu tra byddai'r disgyblion ar eu gwyliau haf.

Cyfeiriodd y Cynghorydd John at Reoli Cyrtiau Tennis ar Gaeau Athletau Penarth, ar Dudalen 5 yr adroddiad, at barhad o'r gefnogaeth ardderchog yr oedd y Cyngor wedi'i derbyn, a'r cydweithrediad â Tennis Cymru yn dilyn Parc Romilly y llynedd, gyda phedwar cwrt arall wedi'u cynllunio.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD – Nodi'r defnydd o Bwerau Argyfwng y Prif Weithredwr.

Rhesymau dros y penderfyniadau

Hysbysu'r Cabinet.

**C68 STRATEGAETH POBL A DOGFENNAU ATEGOL(AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) -**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a’i ddiben oedd galluogi’r Cabinet i ystyried y Strategaeth Pobl ddiwygiedig a’r dogfennau ategol ar ôl yr ymgynghoriad, ac fe’i hystyriwyd ochr yn ochr â’r cyfeiriad a oedd wedi'i restru ar agenda'r cyfarfod o dan Eitem 4.

Nododd y Cynghorydd Williams yr effeithiau a gafodd yr adroddiad ar staff a phreswylwyr Bro Morgannwg yn nhermau darparu gwasanaeth, gan drafod meysydd allweddol ar draws y Cyngor. Roedd hefyd yn falch, fel Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog, o weld Cyfamod y Lluoedd Arfog yn rhan annatod o’r dogfennau a chanmolodd yr holl staff a oedd wedi gweithio i gyflwyno'r adroddiad i'w ystyried.

Ategodd yr Arweinydd sylwadau'r Cynghorydd Williams ynghylch staff ac ychwanegodd fod y Cyngor yn ceisio bod mor alluogol, hyblyg a chefnogol i'r staff ag a oedd yn bosib, gan sicrhau ar yr un pryd bod anghenion yn cael eu bodloni o ran darpariaeth gwasanaeth a busnes.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi cynnwys y Strategaeth Pobl wedi'i diweddaru (Atodiad 1), a'r dogfennau ategol (Atodiadau 2, 3, 4 a 5) yn ogystal â'r adborth i'r ymgynghoriad (Atodiad 6).

(2) Ategu a chymeradwyo'r Strategaeth Pobl ddiwygiedig a'r dogfennau ategol yn dilyn yr ymgynghoriad, fel y'i disgrifiwyd yn yr adroddiad a'r atodiadau.

(3) Y dylai'r Cabinet dderbyn diweddariad ar gynnydd a wnaed yn rhan o'r adroddiadau perfformiad chwarterol, ac mewn adroddiadau annibynnol, fel bo'r angen.

(4) Y dylid adolygu'r Strategaeth yn rheolaidd, a dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Trefniadol i wneud unrhyw ddiweddariadau angenrheidiol, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol, gan adrodd newidiadau o bwys i'r Cabinet.

(5) Y dylid cyfeirio'r Polisi Gwirfoddoli sydd ynghlwm yn Atodiad 4 yr adroddiad i sylw Cydbwyllgor Cynghorol y Sector Gwirfoddol er gwybodaeth, ac i drafod y cyfleoedd posibl i gydweithio ar y cynllun.

<u>Rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Galluogi'r Cabinet i ystyried yr adborth i'r ymgynghoriad a newidiadau dilynol.

(2) Bwrw goleuni ar ystyriaeth y Cabinet o fersiwn derfynol y Strategaeth Pobl a'r dogfennau ategol a sicrhau bod gan y Cyngor Strategaeth gymeradwy.

(3) Galluogi'r Cabinet i adolygu ac ystyried y cynnydd a wnaed yn erbyn y Strategaeth Pobl, fel y nodir yng Nghynllun Gweithredu'r Gweithlu.

(4) Galluogi addasiadau, i allu ymateb yn gyflym i unrhyw ddynameg economaidd newidiol, ac anghenion ein dinasyddion a'r gweithlu.

(5) Galluogi'r Pwyllgor i ystyried y polisi a sut y gall y Cyngor a'r trydydd sector gydweithio ar y cynllun.

**C69 STRATEGAETH ARIANNOL 2024/25 (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) -**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i bwrpas oedd adolygu'r pwysau ariannol dros y tymor canolig, a rhoi strategaeth ar waith i gyflawni cyllideb 2024/25 a chyllid cynaliadwy dros y tymor canolig.

Dywedodd yr Arweinydd y byddai'r Cyngor yn parhau i weithio i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cadw i'r rhai mwyaf agored i niwed. Roedd chwyddiant wedi bod yn broblem fawr i'r Awdurdod dros y misoedd diweddar, ynghyd â dyfarniadau cyflog, a chostau ynni a thrafnidiaeth a oedd wedi cael effaith ar y DU gyfan. Byddai'r adroddiad yn mynd drwy'r prosesau adolygu fel y'u nodir yng Nghrynodeb Gweithredol yr adroddiad, a dywedodd yr Arweinydd ei bod yn edrych ymlaen at y trafodaethau cysylltiedig a chanlyniadau'r Pwyllgorau Craffu amrywiol yn rhan o'r broses honno.

Diolchodd y Cynghorydd John i'r staff Cyllid am yr adroddiad a esboniai'r heriau o'n blaen, ac ategwyd y diolch hwnnw gan y Cabinet.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau cysylltiedig

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi'r sefyllfa ariannol heriol a wynebir gan y Cyngor, gyda bwlch ariannu o £6.430M yn 2024/25 ac £11.953M dros y tymor canolig.

(2) Y dylai'r Cabinet lobïo Llywodraeth Cymru am setliad priodol yn wyneb y pwysau chwyddiant parhaus, ac awdurdodi Swyddogion y Cyngor i wneud hynny hefyd drwy rwydweithiau priodol.

(3) Gofyn i'r swyddogion adolygu'r pwysau o ran costau a chyflwyno cynigion arbed er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch yn y gyllideb, fel bo'r Cyngor mewn sefyllfa i bennu cyllideb gytbwys ym mis Mawrth 2024.

(4) Gofyn i swyddogion lunio cynigion am raglen drawsnewid wedi'i hailddiffinio, y Rhaglen Ail-lunio, i gyd-fynd â'r Strategaeth Ariannol a chyfrannu at gynaliadwyedd ariannol y Cyngor yn y tymor canolig.

(5) Y dylid cyfeirio'r adroddiad i sylw holl Bwyllgorau Craffu'r Cyngor, ac y dylai'r Pwyllgorau adolygu'r Strategaeth Ariannol (gan gynnwys yr ymagwedd arfaethedig at ddiffinio a datblygu fersiwn nesaf y Rhaglen Ail-lunio) a'r rhagdybiaethau a wnaed o ran costau a chyllid yn fersiwn newydd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, a chyfeirio'r sylwadau'n ôl i'r Cabinet er ystyriaeth.

(6) Y dylid cyflwyno adroddiad pellach ar gyllideb y Cyngor i'r Cabinet ymhen amser, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad hwn.

<u>Rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Roedd pwysau ariannol sylweddol yn parhau yn effeithio ar Gyllideb 2024/25 a Chynllun Ariannol Tymor Canolig 2024/25 i 2028/29 ac roedd yn hanfodol hysbysu’r Cabinet ynghylch maint yr her ac i ddechrau gweithio ar y cyfle cyntaf i sefydlu cyllideb gytbwys a sefyllfa ariannol gynaliadwy yn y tymor canolig.

(2) Ni ellid gorbwysleisio'r heriau ar hyn o bryd, ac nid oedd modd lliniaru llawer o'r pwysau o ran costau. Byddai'n hanfodol sicrhau'r setliad gorau posib er mwy osgoi gostyngiadau mewn darpariaeth gwasanaeth.

(3) Roedd nifer o strategaethau ar gael er mwyn cydbwyso'r gyllideb ac eithrio denu mwy o gyllid a sicrhau arbedion. Roedd angen rheoli costau hefyd.

(4) Galluogi cryfhau cynaliadwyedd ariannol tymor canolig y Cyngor drwy lunio fersiwn newydd o'r Rhaglen Ail-lunio.

(5) Roedd y Cyngor yn agored i adroddiadau ariannol clir a thryloyw a lefel briodol o her i'w drefniadau rheoli cyllid. Elfen allweddol o'r broses honno o herio oedd swyddogaeth graffu'r Cyngor.

(6) Roedd pennu'r gyllideb yn broses faith, ac roedd hi'n bwysig adrodd diweddariadau rheolaidd yn ôl i'r Aelodau.

**C70 STRATEGAETH GYFALAF DDRAFFT 2024/25 A CHYNIGION RHAGLEN GYFALAF GYCHWYNNOL 2024/25 I 2028/29 (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) -**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd cael cymeradwyaeth ar gyfer Cynigion y Rhaglen Gyfalaf Gychwynnol ar gyfer 2024/25 hyd 2028/29 fel bo modd eu cyflwyno i'r Pwyllgorau Craffu i ymgynghori arnynt, ac i lunio Drafft y Strategaeth Gyfalaf er ystyriaeth gan Aelodau'r Cabinet.

Roedd hi'n anodd rhagweld adnoddau cyfalaf dros gyfnod hir gan ein bod fel arfer yn cael gwybod o'r naill flwyddyn i'r nesaf beth fyddai lefel y cyllid cyfalaf cyffredinol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, roedd lefelau grant yn gallu newid a derbyniadau cyfalaf yn anodd eu rhagweld.

Ar 28 Chwefror 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y setliad cyllid cyfalaf cyffredinol terfynol ar gyfer 2023/24, sef £6.997m, a oedd yn cynnwys £3.54m o grant a £3.452m o fenthyca â chymorth. Roedd hyn yn gynnydd o £1.168M o gymharu â'r £5.829m a gafwyd yn 2022/23. Cadarnhawyd mai £180m fyddai cyllid cyfalaf cyffredinol ar gyfer llywodraeth leol yn 2023-24, ac y byddai'n aros ar £180m ar gyfer 2024-25, ac nid oedd unrhyw ragamcanion pellach ar gael y tu hwnt i hynny ar hyn o bryd.

Dywedodd y Cynghorydd Wilson fod buddsoddiad cyfalaf o fewn ei Bortffolio ar y Cabinet yn hanfodol, a'i fod yn aml ar sail buddsoddi i arbed, a diolchodd i'r staff a phawb fu'n gweithio i gyflwyno'r adroddiad er ystyriaeth.

Dywedodd yr Arweinydd fod llawer iawn o drafodaeth fewnol wedi'i chynnal ar yr adroddiad, felly roedd pawb dan sylw yn deall cefndir y cynigion, ac roedd tryloywder ac agwedd agored wrth gyfiawnhau'r penderfyniadau a wnaed.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo Drafft Strategaeth Gyfalaf 2024/25 fel y nodwyd yn Atodiad 1.

(2) Bod y Cabinet yn nodi Rhaglen Gyfalaf Gychwynnol 2024/25 hyd 2028/29 ac yn ei chyfeirio i sylw'r Pwyllgorau Craffu er mwyn ymgynghori arni.

(3) Y dylid cynnwys cynllun y Strategaeth Buddsoddi y tu allan i'r Trysorlys fel cynllun yn yr Arfaeth yn Rhaglen Gyfalaf 2024/25 hyd 2028/29 gyda chyllideb o £12m fel y manylwyd yn yr adroddiad.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Cymeradwyo Drafft y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2024/25.

(2) Er mwyn rhoi gwybod i'r Aelodau am statws cychwynnol y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2024/25 hyd 2028/29.

(3) Er mwyn gallu bwrw ymlaen â Strategaeth Buddsoddi'r Cyngor y tu allan i'r Trysorlys.

**C71 YMGYNGHORIAD AR Y CYNNIG I GYFLWYNO ADEILAD NEWYDD AR GYFER YSGOL UWCHRADD GATHOLIG ST RICHARD GWYN (ACG) (CRAFFU – DYSGU A DIWYLLIANT) -**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad er mwyn rhoi gwybod i'r Cabinet am yr ymgynghoriad ar gynnig i ddarparu adeilad newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn ar ei safle presennol o fis Medi 2025.

Mynegodd y Cynghorydd Birch y byddai goblygiadau'n gysylltiedig â hyn o ran y newid hinsawdd a natur, ond y byddai elfennau adeiladu o'r newydd y rhaglen dreigl Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn bodloni sgôr ardderchog BREEAM ar gyfer lleihau costau cynnal ac allyriadau carbon sy'n deillio o'r adeilad i raddau sylweddol, ac roedd hynny'n uchelgais gan y Cyngor.

Dywedodd yr Arweinydd fod llawer o gyffro yn yr ysgol ynghylch y ffaith y byddai'r cynnig yn symud ymlaen i fod yn destun ymgynghoriad, a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at dderbyn canlyniadau'r ymgynghoriad ym mis Hydref.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Y dylid cefnogi penderfyniad y Corff Llywodraethol i gynnal cyfnod ymgynghori o'r 5 Medi, 2023 hyd 17 Hydref, 2023 ar y cynnig i wneud addasiad

rheoledig i'w hysgol er mwyn cynyddu capasiti Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn  813 o leoedd i 1,050 o leoedd o fis Medi 2025.

(2) Y byddai gweithredu'r cynnig yn ddarostyngedig i'r prosesau statudol perthnasol, ac y byddai cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru yn amodol ar gymeradwyo achos busnes trwyadl.

(3) Y dylid cyfeirio'r adroddiad i'w ystyried gan y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant, yn rhan o'r ymarfer ymgynghori a gynigiwyd.

<u>Rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Er mwyn nodi penderfyniad y Corff Llywodraethol i geisio adborth drwy ymgynghoriad ffurfiol â rhanddeiliaid rhagnodedig, cyn cyhoeddi ei gynnig, fel bo'n ofynnol yn ôl Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

(2) Er mwyn nodi y byddai gweithredu'r cynnig yn ddarostyngedig i'r prosesau statudol perthnasol, ac y byddai cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru yn amodol ar gymeradwyo achos busnes trwyadl.

(3) Er mwyn sicrhau yr ymgynghorir â'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ar y cynnig.

**C72 CYNLLUN TAIR BLYNEDD CYNNAL A CHADW PRIFFYRDD DIWYGIEDIG 2022 – 2024 (WCA) (CRAFFU – AMGYLCHEDD AC ADFYWIAD) -**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a'i bwrpas oedd rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Cabinet ynghylch y pwysau cyllidebol a oedd yn effeithio ar y Cynllun Ailwynebu Tair Blynedd, a chytuno ar leoliadau y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt ar gyfer gwaith ailwynebu yn 2023/24.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Wilson at Atodiad Cyflawn A, a oedd wedi'i atodi i'r adroddiad. Roedd yr Atodiad yn cynnwys taenlen o'r ffyrdd a oedd wedi cael eu hailwynebu, ac yr oedd hi'n bryd eu hailwynebu, yn ogystal â'r system sgorio a oedd yn cael ei defnyddio, ac y cyfeiriwyd ati yn Atodiad B. Sicrhaodd y Cabinet fod meini prawf gwrthrychol ar waith i asesu cyflwr y ffyrdd, ond anogodd breswylwyr ac Aelodau etholedig i roi gwybod i'r Cyngor pe bai angen ystyried unrhyw ardaloedd eraill, fel y gellid defnyddio adnoddau mewn modd priodol, yn unol â blaenoriaeth.

Roedd £350,000 yn ychwanegol wedi'i sicrhau a fyddai'n cael ei ddefnyddio i ariannu'r rhaglen o driniaethau microasffalt ar y strydoedd a fyddai'n addas ar gyfer y math honno o driniaeth, ac yn y blynyddoedd dilynol, byddai'r meini prawf ar gyfer sgoriau ffyrdd yn cael eu hadolygu i roi adlewyrchiad gwell o faterion fel Teithio Llesol a llwybrau eraill a allai gael eu defnyddio gan feicwyr.

Diolchodd yr Arweinydd i'r staff oedd wedi cynnal a chadw'r ffyrdd dros y flwyddyn ddiwethaf, yn enwedig yn ystod cyfnodau o dywydd garw.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch. Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD

(1) Nodi cynnwys Cynllun Ailwynebu Tair Blynedd 2022 i 2024 diwygiedig y Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd, fel yr oedd wedi'i atodi yn Atodiad A, a chytuno mewn egwyddor ar y lleoliadau ychwanegol â blaenoriaeth ar gyfer gwaith ailwynebu.

(2) Y dylid dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai ddiwygio'r Cynllun, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladau, pe bai blaenoriaethau'n cael eu nodi i ailwynebu priffyrdd ar frys.

(3) Cyfeirio'r mater i Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio er ystyriaeth.

(4) Y dylid cytuno ar Gynllun Ailwynebu Tair Blynedd y Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd, ar yr amod na cheir unrhyw sylwadau gan y Pwyllgor Craffu a fyddai'n effeithio ar y cynllun fel yr oedd wedi'i gynnig.

(5) Y dylid adolygu'r meini prawf ar gyfer sgorio ffyrdd yn y blynyddoedd i ddod er mwyn rhoi ystyriaeth well i faterion fel Teithio Llesol a llwybrau eraill a allai gael eu defnyddio gan feicwyr.

(6) Mai ond rhannau hanfodol o Briffordd ddiffygiol, wedi'u nodi gan Swyddogion, y dylid eu hailwynebu lle bo angen.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Er mwyn cytuno mewn egwyddor ar y Cynllun ac ar leoliadau â blaenoriaeth.

(2) Er mwyn ymdrin yn effeithlon â newidiadau yn y Cynllun os bydd llwybrau priffordd eraill yn dirywio'n gyflymach na'r disgwyl, neu os bydd cyfyngiadau'n golygu bod angen newid blaenoriaeth i sicrhau'r defnydd mwyaf cost-effeithiol o'r dyraniad cyllidebol yn 2023/24.

(3) Er mwyn sicrhau y gallai'r Pwyllgor Craffu perthnasol ystyried manylion y Cynllun Tair Blynedd i Ailwynebu Priffyrdd (2022-2024) yn cytuno arno'n ffurfiol.

(4) Fel bo modd cymeradwyo'r Cynllun terfynol ar ôl i'r Pwyllgor Craffu perthnasol ei ystyried, os na cheir unrhyw sylwadau i law sy'n effeithio ar y cynllun fel y'i cynigiwyd.

(5) Er mwyn sicrhau y byddai'r meini prawf asesu yn y dyfodol yn ystyried yr holl ffactorau perthnasol sy'n gysylltiedig â defnydd priffyrdd.

(6) Er mwyn gwneud defnydd mor effeithlon ag sy'n bosibl o'r Gyllideb Ailwynebu Priffyrdd (2022/23).

**C73 CYNLLUN ARDAL AR Y CYD (GCI) (CRAFFU - BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL) -**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a'i ddiben oedd gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer y Cydgynllun Ardal.

Dywedodd y Cynghorydd Williams fod y Cydgynllun Ardal wedi'i ystyried gan y Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol ar 13 Mehefin, 2023, a bod y Cynllun wedi'i ddiwygio yn unol â hynny.

Roedd yr Arweinydd yn falch o weld yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'w ystyried gan ei fod yn rhoi llais i'r rhai yr effeithir arnynt, a byddai'n gwneud gwahaniaeth mawr i allu pobl i gael cymorth.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi ystyriaethau'r Cydgynllun Ardal gan y Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol.

(2) Cymeradwyo'r Cydgynllun Ardal fel y'i hatodwyd i'r Adroddiad.

<u>Rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Sicrhau bod Aelodau'r Cabinet yn cael trosolwg o'r adborth gan Aelodau'r Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol.

(2) Sicrhau bod Cyngor Bro Morgannwg yn cymeradwyo’r ymrwymiadau yn y Cynllun ac yn cyflawni ei rwymedigaethau o dan Adran 14A o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.